GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL YN HWLFFORDD) (GWAHARDD TRAFFIG CERBYDOL DROS DRO) 2022

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu, nid llai na saith diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn, gwneud gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991.

Mae'r gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol fel y gellir gwneud gwaith telathrebu.

Effaith y gorchymyn fydd gwahardd dros dro yr holl draffig cerbydol ac eithrio cerbydau esempt rhag mynd ar hyd y rhan honno o'r ffyrdd a ddisgrifir yn yr atodlen isod.

Bydd y llwybr amgen ar gyfer traffig yn cael ei bennu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Bydd pob ffordd ar gau fesul tipyn yn ystod y 15 diwrnod.

Bydd mynediad i gerddwyr yn cael ei gynnal trwy gydol y cyfnod y bydd y ffyrdd ar gau.

Y bwriad yw y bydd y cyfyngiadau, a fydd yn cael eu dangos gan arwyddion ffyrdd, yn dod i rym ddydd Sul 5 Mehefin 2022 ac yn parhau mewn grym am oddeutu 15 diwrnod neu hyd nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Bydd y gorchymyn yn parhau i fod yn ddilys am uchafswm o 12 mis fel cynllun wrth gefn pe bai angen aildrefnu'r gwaith neu os bydd unrhyw amgylchiadau annisgwyl.

Dyddiedig y 18fed diwrnod hwn o Fai 2022

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd

ATODLEN

Ffordd	**Disgrifiad**
Mariners Square	o'i gyffordd â Barn Street, i'r dwyrain i'w gyffordd â Dark Street
Dark Street	o'i chyffordd â Mariners Square, i'r dwyrain i'w chyffordd â High Street
Tower Hill	o'i gyffordd â St Mary’s Street, i'r de i'w gyffordd â High Street
St Mary’s Street	o'i chyffordd â Tower Hill, i'r dwyrain i'w chyffordd â High Street